# SUT I GAEL GWYBODAETH CON29, 'YMHOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (2016)', DAN REOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL 2004

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Gellir cael gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ymholiadau CON29 yn Nhŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF (ac eithrio ymholiad 3.14) drwy wneud apwyntiad drwy'r manylion cyswllt perthnasol isod. **Nodwch y cwestiynau y mae arnoch angen atebion iddynt ar gyfer pob cyfeiriad a gyflwynwch.**

Gellir gweld y wybodaeth ar y safle neu'i derbyn drwy e-bost (nid o reidrwydd ar yr un amser/dyddiad). Efallai y bydd gofyn i chi edrych ar gopïau electronig neu wybodaeth ar bapur.

| Gwybodaeth wedi'i Chael Gan | Ymholiad | Gwybodaeth wedi'i Chael Gan | Ymholiad |
|---|---|---|---|
| Pridiannau Tir[3]<br>Ffôn 01352 702333/4/5<br>E-bost planningadmin@flintshire.gov.uk i drefnu apwyntiad[2] | 1.1a-f[1]<br>3.7b,e<br>3.9a-f,j,k,l,n<br>3.12 (a'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol) | Gwasanaethau Stryd / Network Rail<br>Ffyrdd, Strydoedd a Theithio<br>neu e-bost:<br>streetsceneadmin@flintshire.gov.uk<br>Prosiectau Allweddol Network Rail<br>Rheilffyrdd Network Rail | 3.2<br>3.4a-f<br>3.6a-l<br>3.5a-b |
| Ffyrdd a Fabwysiadwyd yn Sir y Fflint<br>Rheoli Datblygu Priffyrdd<br>E-bost planningadmin@flintshire.gov.uk i drefnu apwyntiad[2] | 2.1a-b<br>2.1c-d | Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint | 1.2<br>3.1 |
| Hawliau Tramwy Priffyrdd | 2.2<br>2.3<br>2.4<br>2.5 | Radon yn y Deyrnas Unedig<br>https://www.ukradon.org/ | 3.14 |
| Rheoli Risg Llifogydd a'r Arfordir[4]<br>FloodRiskManagement@Flintshire.gov.uk | 3.3a-c<br>3.7g | Rheoli Adeiladu<br>E-bost planningadmin@flintshire.gov.uk i drefnu apwyntiad[2] | 1.1j,k,l<br>3.7a<br>3.8 |
| Strategaeth Cynllunio a Chadwraeth<br>Email conservation@flintshire.gov.uk<br>Gorchmynion Cadwraeth Coed Sir y Fflint | 1.1g,h,i<br>3.9g,h,i<br>3.11 a-b<br>3.9m | Iechyd yr Amgylchedd<br>Cofrestr Tir Halogedig<br>E-bost<br>pollution.control@flintshire.gov.uk<br>E-bost HousingEnforcement@flintshire.gov.uk<br>E-bost health.safety@flintshire.go.uk | 3.13a-c<br>3.7f<br>3.7d & f<br>3.7c |

**C3.10 ARDRETH ISADEILEDD CYMUNEDOL:** Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn codi Ardrethi Isadeiledd Cymunedol.

**C3.15 ASEDAU O WERTH CYMUNEDOL:** Nid yw'r ddeddfwriaeth hon mewn grym yng Nghymru eto.

-------------------------------------------

**COST -** Ni fydd unrhyw gost, gan dybio na fydd neb yn mynd y tu hwnt i'r terfyn priodol o 18 awr/£450. Gellir codi tâl am ddarparu copïau ar bapur yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd; er enghraifft, ar gyfer costau dosbarthu – argraffu / copïo/ postio ac ati.

**TERFYNAU AMSER -** Ymatebir yn brydlon a byddwn yn ymdrechu i ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Gallai gwahanol wasanaethau ymateb i geisiadau ar adegau gwahanol. Ni ellir gwarantu amser pendant ar gyfer ymatebion penodol – bernir yr hyn sy'n cyfrif fel 'ymateb prydlon' ar sail nifer y ceisiadau a blaenoriaethau gwaith eraill y gwasanaeth/au.

I gael ychwaneg o wybodaeth am y gweithdrefnau hyn, cysylltwch â Lynne Fensome ar 07880052266/planningadmin@flintshire.gov.uk

1. Mae hanes cynllunio ers canol 2006 hyd heddiw hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

# SUT I GAEL GWYBODAETH CON29, 'YMHOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (2016)', DAN REOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL 2004

2. Gall unrhyw gwmni wneud hyd at bump o chwiliadau fesul apwyntiad. Wrth drefnu'r apwyntiad i ddechrau, mae'n rhaid ichi ddarparu o leiaf un o'r cyfeiriadau y bwriadwch ymchwilio iddynt, ac anfon e-bost yn syth wedi hynny i gadarnhau gan gynnwys cynllun y safle. Gellir anfon hyd at bedwar o gyfeiriadau eraill yn ddiweddarach ond mae'n rhaid inni eu derbyn o leiaf PUMP O DDIWRNODAU GWAITH cyn eich apwyntiad. Wrth anfon e-bost i gadarnhau, dylech gynnwys: 1. Cyfeiriad eich busnes a'r rhif ffôn; 2. Dyddiad ac amser yr apwyntiad; 3. Disgrifiad o'r cyfeiriadau y bwriedir ymchwilio iddynt; 4. Y cwestiynau y dymunir cael atebion iddynt; 5. Cynlluniau pendant a diamwys ar gyfer yr holl eiddo.

3. Fel arfer, Pridiannau Tir sy'n ymateb i ymholiadau ynglŷn â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol a Chwestiynau 1.1a-e. Os oes unrhyw beth arall, nodwch hynny yn eich cais.

4. Diwygiwyd yr ymatebion safonol ar gyfer 3.3a-c a 3.7g ym mis Mehefin 2025.

3.3. Materion draenio

(a) A oes gan yr eiddo system draenio cynaliadwy trefol (SuDS)?

Anhysbys

Nid yw'r Cyngor yn meddu ar ddata ynglŷn â gosod systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau cyn 2019.

Argymhellir felly y dylid cyflwyno ymholiadau ar wahân i'r perchnogion presennol i ganfod a oes ganddynt systemau draenio cynaliadwy, a yw'r rheiny o fewn ffiniau'r eiddo a phwy sy'n gyfrifol am eu cynnal a chadw.

Gallai system draenio cynaliadwy gynnwys nodweddion mawr a rennir i storio dŵr wyneb, fel pyllau/tanciau arafu, pantiau yn y tir neu ffosydd cerrig, yn ogystal â phethau eraill fel casgenni/systemau ailgylchu dŵr glaw ar gyfer eiddo unigol na fyddai angen caniatâd cynllunio na chymeradwyaeth dan y rheoliadau adeiladu.

(b) A oes yno nodweddion system draenio cynaliadwy o fewn ffiniau'r eiddo? Os oes, a yw'r perchennog yn gyfrifol am eu cynnal a chadw?

Gweler yr ymateb i 3.3(a).

(c) Os oes gan yr eiddo system draenio cynaliadwy y codir tâl ar ei gyfer, pwy sy'n bilio'r eiddo am y tâl ar gyfer draenio dŵr wyneb?

Anhysbys

Gallai'r taliadau am ddraenio dŵr wyneb fod yn daladwy i gyrff allanol fel Cwmni Rheoli, Awdurdod Lleol neu Gwmni Dŵr Cyhoeddus.

Argymhellir felly y dylid cyflwyno ymholiadau ar wahân i'r perchnogion presennol i ganfod pwy sy'n talu am waredu dŵr wyneb ar hyn o bryd, ac i bwy y gwneir y taliad hwnnw.

<u>Er gwybodaeth</u>

Ers 7 Ionawr 2019, mae'n rhaid cael  cymeradwyaeth gan Gorff Cymeradwyo SuDS (SAB) cyn dechrau unrhyw ddatblygiadau newydd â mwy nag un annedd neu ddatblygiadau lle mae'r gwaith adeiladu'n digwydd dros arwynebedd o 100 metr sgwâr neu fwy.

3.7 Rhybuddion sy'n dal mewn grym

(g) Dim – gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd gyflwyno rhybuddion ym maes Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad yr Arfordir. Argymhellir felly y dylid cysylltu â'r corff hwnnw lle bo'n briodol.